# Defnyddio Delweddau

**Mae delweddau yn cael eu diogelu gan hawlfraint yn yr un modd ag y mae llyfr neu ffilm. Ystyriwch y canlynol os ydych yn defnyddio delweddau**

Gallwch gopïo delweddau o gyhoeddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Drwydded Addysg CLA – gwiriwch fod y deunydd wedi'i gynnwys drwy ddefnyddio ein hadnodd Gwirio Caniatâd. Mae'r Drwydded yn rhoi caniatâd i chi ddosbarthu'r copïau hyn o fewn eich sefydliad.

Ar gyfer delweddau, fel gyda'r rhan fwyaf o ddeunydd hawlfraint, nid yw'r ffaith bod rhywbeth yn rhad ac am ddim i edrych arno yn golygu ei fod yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio. Mae'n bwysig gwirio amodau'r hawlfraint.

Nid gwefannau mo chwilotwyr – maent yn tynnu delweddau o rywle arall ar y rhyngrwyd ac mae'n bwysig eich bod yn gwirio Telerau ac Amodau'r wefan sy'n lletya'r delweddau yn uniongyrchol.

Mae delweddau 'heb hawlfraint' yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho a'u defnyddio, ar yr amod y cedwir at rai telerau sylfaenol, megis cydnabod y ffynhonnell a pheidio â'u hailwerthu na'u hailddosbarthu.

Gwerthir delweddau 'stoc' neu 'heb freindal' am ffi untro sy'n rhoi caniatâd i chi eu defnyddio gynifer o weithiau ag y dymunwch heb orfod talu breindaliadau pob tro.

Delweddau 'hawliau a reolir' yw lle mae'r defnyddiwr yn talu ffi a gellir defnyddio'r delweddau o dan drwydded. Mae'n bosibl y cyfyngir ar y defnydd mewn rhyw ffordd – er enghraifft caniatáu un defnydd yn unig.

Am fwy o wybodaeth ar ddefnyddio delweddau, mae Sefydliad Ffotograffiaeth Broffesiynol Prydain wedi paratoi Canllaw Defnyddio Delweddau defnyddiol